

**Polisi Trafnidiaeth Gymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i
Oedolion**



**Polisi Trafnidiaeth Gymorthedig
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Hawdd ei Ddarllen

Polisi Trafnidiaeth Gymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Beth yw Trafnidiaeth Gymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Os oes angen cymorth arnoch i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gallwch ddefnyddio Trafnidiaeth Gymorthedig Awdurdodau Lleol.

Efallai bod angen cymorth arnoch oherwydd rhesymau anabledd neu broblemau iechyd.

Efallai bydd angen cymorth arnoch oherwydd nad oes car neu drafnidiaeth eich hun gennych.

Gall gefnogaeth gynnwys tacsis a bysiau mini neu drafnidiaeth drwy gontractau trafnidiaeth y cyngor.

Mae Trafnidiaeth Gymorthedig fel arfer yn helpu pobl i deithio i lefydd ym mwrdeistref Caerffili fel rhan o'u cynllyn gofal.

Trafnidiaeth yng Nghaerffili

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Gonsesiynol. Mae'r cynllun hwn yn darparu trafnidiaeth bws am ddim ar bob adeg a phob dydd ar ran fwyaf o wasanaethau bws lleol.

Polisi Trafnidiaeth Gymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Gallwch chi ddefnyddio'r cynllun hwn

- os ydych chi'n byw ym Mwrdeistref Caerffili
- ac mae gennych chi anabledd
- neu rydych chi dros 60 oed

Os oes angen cymorth arnoch wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gallech chi gael tocyn bws i'ch cydymaith. Mae hyn yn galluogi'r person sy'n rhoi cymorth i chi deithio am ddim, hefyd.

I ddarganfod rhagor

Tocyn bws pobl dros 60 oed:

<http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Bus-pass-for-over-60s>

Tocyn bws i bobl anabl a thocyn bws cydymaith:

<http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Bus-passes>

Pam ydym yn rhoi cymorth i chi deithio

Mae rhaid i'r cyngor ganfod eich anghenion a beth yr ydych chi am gael o fywyd.

Os na allwch chi fodloni'ch anghenion eich hun, neu gyda chymorth teulu a ffrindiau, mae rhaid i'r cyngor roi cymorth i chi fodloni'ch anghenion.

Nid yw hyn yn golygu bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn bodloni'ch anghenion. Mae'n golygu y gall unrhyw wasanaeth o fewn yr awdurdod lleol eich helpu.

Bwriad y polisi

Gall deithio o gwmpas y sir eich helpu i

- Fod yn fwy annibynnol
- Gael mwy o ddewis a rheolaeth
- Adeiladu ar eich cryfderau a'ch helpu i wneud y mwyaf o'ch sir cartrefol
- Fyw bywyd iachach
- Wella ansawdd eich bywyd
- Dderbyn mwy o urddas a pharch gan bobl eraill
- Gwrdd â phobl a gwneud ffrindiau

Sut ydym yn penderfynu?

I gael help gyda thrafnidiaeth, bydd rhaid i chi gael eich asesu. Bydd rhaid i berson gwrdd â chi er mwyn darganfod beth sydd angen arnoch a beth sy'n bwysig i chi.

Byd yr asesiad yn ystyried os yw'n ddiogel ac yn rhesymol i ddisgwyl i chi, neu eich teulu neu ffrindiau, i wneud trefniadau teithio.

Fel rhan o'r asesiad, bydd pob opsiwn trafniadaeth yn cael ei ystyried.

Byddant yn nodi eich anghenion a beth sy'n bwysig i chi.

Pwy all gael gymorth gyda thrafnidiaeth?

- Pobl dros 18 oed sydd wedi cael asesiad a gytunid bod angen cymorth a gofal arnynt gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Golyga hyn bod gennych angen na all gael ei fodloni oni bai am wasanaethau sy'n gofyn i chi deithio.
- Rydych chi wedi cael eich asesu ac wedi cytuno i fynychu gwasanaeth oddi cartref, megis gwasanaethau dydd
- Rhaid i chi fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth.

Wrth asesu cymhwyster ar gyfer trafnidiaeth ac o'r gwahanol ffyrdd o gael mynediad at y gwasanaethau, bydd y pethau canlynol yn cael eu hystyried:

- Os oes gennych fynediad at dtrafnidiaeth yn barod;
- Os ydych chi'n derbyn lwfans symudedd neu unrhyw arian arall i dalu am dtrafnidiaeth
- Pa mor dda allwch chi symud neu eich symudedd
- Pa mor dda allwch chi deithio ar eich pen eich hun
- Os yw trafnidiaeth ar gael i fynd â chi i'ch gyrchfan
- Pa mor dda yr ydych chi'n ei wneud wrth hyfforddi i deithio ar eich pen eich hun.

Pwy na all gael gymorth gyda thrafnidiaeth?

Efallai na fyddwch yn derbyn cymorth wrth deithio

- Os allwch chi deithio i weithgaredd cymunedol sy'n bodloni eich anghenion ar eich pen eich hun, neu gyda chymorth teulu, ffrindiau neu ddarparwyr cymorth
- Os ydych chi'n derbyn cydran symudedd o DLA / PIP
- Os oes gennych chi gerbyd symudedd yr ydych yn ei yrru

- Os oes gennych chi gerbyd symudedd nad ydych chi'n ei yrru, ond mae'n rhesymol i ofyn i aelod o'r teulu neu ffrind i'w yrru ar eich rhan chi.
- Os ydych chi'n derbyn cydran symudedd o Lwfans Byw i Bobl ag Anabledd (DLA) ac yn gallu ei defnyddio i fynd i'ch cyrchfan. Os na allwch chi ddefnyddio'r DLA i fynd yno, bydd y cyngor yn edrych ar y rheswm. Os nad yw'r arian yn ddigon, bydd y cyngor yn eich helpu i gael gwybod os ydych chi'n derbyn y budd-daliadau cywir. Os oes yna reswm gwahanol, fel y pellter neu oherwydd bod eich cadair olwyn yn costio gormod i'w gludo, efallai byddwch yn gallu cael cymorth gyda thrafnidiaeth.
- Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal cofrestredig ac os yw'r cartref wedi cytuno i'ch helpu wrth deithio.
- Os ydych chi'n byw rhywle arall lle bod eich anghenion gofal yn cael eu hariannu gan Wasanaethau Cymdeithasol. Er enghraifft, lleoliad Gofal Preswyl, cynllun byw â chymorth neu leoliad rhannu bywyd. Mae hynny oherwydd gall y cyngor eisoes dalu'r darparwr gofal i gefnogi'ch anghenion, gan gynnwys teithio i weithgareddau cymunedol.

- Os ydych chi'n dibynnu ar berthynas neu ofalwr arall i yrru car symudedd i chi a bod anghenion eich gofalwr yn golygu nad yw'n gallu eich gyrru.

Os nad ydych chi a'ch gofalwr yn gallu cytuno ar sut i ddefnyddio'ch car symudedd, efallai bydd rhaid i'r cyngor ystyried materion diogelu. Efallai byddwch chi am roi'r gar symudedd yn ôl a chael arian yn lle, er mwyn talu am eich anghenion teithio. Er enghraifft, i dalu am dacsï. Bydd hyn yn eich helpu i fod yn fwy annibynnol a'ch galluogi i gymryd rheolaeth dros eich anghenion teithio eich hun.

Cwnyion / Apeliadau

Os ydych chi neu eich gofalwr yn anhapus gyda phenderfyniad asesiad eich anghenion trafnidiaeth, gallwch ddefnyddio proses cywnion y cyngor. Gellir darganfod rhagor yma

.....

Polisi Trafnidiaeth Gymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Gwrthod gwasanaethau

Os, ar ôl asesiad, penderfynir eich bod chi'n gallu gwneud trefnidadau trafnidiaeth eich hun, ond yn penderfynu i beidio felly na allwch chi fynychu'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch, byddwch yn cael eich ystyried fel unigolyn sydd wedi gwrthod gwasanaethau.

Ffyrdd eraill i helpu gyda thrafnidiaeth

- Trafnidiaeth ar gyfer gofal iechyd – gellir gofyn am asesiad gan GIG drwy eich doctor i fynychu apwyntiadau iechyd.
- Trafnidiaeth ar gyfer cyflogaeth - gallwch geisio am asesiad o gwasanaeth gyflogaeth megis Canolfan Byd Gwaith neu Mynediad i Waith.
- Trafnidiaeth ar gyfer coleg neu addysg – gallwch ddarganfod rhagor o wybodaeth yma
<http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-travel>